# China



Mae China'n fawr - yn fawr iawn. Edrychwch ar fap o'r byd.

- Ydych chi'n gallu gweld China?
- Ydych chi'n gallu gweld Cymru?



中国



## Beth sy'n dod o China?

- papur - amser maith yn ôl
- tân gwyllt - amser maith yn ôl
- te - heddiw
- teganau - heddiw
- cyfrifiaduron - heddiw
- dillad - heddiw

a mwy!



Mae coedwigoedd a mynyddoedd yn China - dyna ble mae'r panda'n byw.



Mae pobl China yn siarad Tsieinëeg a Mandarin.



Maen nhw'n gwneud *tai chi* yn y bore achos maen nhw'n hoffi cadw'n heini.

| | | | |
|---|---|---|---|
| amser maith yn ôl | a long time ago | coedwig, coedwigoedd | forest, forests |
| tân gwyllt | fireworks | mynydd, mynyddoedd | mountain, mountains |
| tegan, teganau | toy, toys | Tsieinëeg | Chinese (language) |
| cyfrifiadur, cyfrifiaduron | computer, computers | cadw'n heini | to keep fit |